AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

MID AND WEST WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

SYLWER: MAE'R COFNODION YMA'N AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN YR AWDURDOD TÂN YN EI GYFARFOD NESAF / NOTE: THESE MINUTES ARE SUBJECT TO CONFIRMATION BY THE FIRE AUTHORITY AT ITS NEXT MEETING

COFNODION
CYFARFOD ARBENNIG O'R AWDURDOD TÂN

Ystafell Caer,
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Caerfyddin
06 MAI 2014

MINUTES
OF THE EXTRAORDINARY FIRE AUTHORITY MEETING

The Caer Suite,
Fire and Rescue Service Headquarters, Carmarthen
06 MAY 2014

10.00 – 14:05

88% PRESENOLDEB / ATTENDANCE

Presennol yn y Cyfarfod /Present at Meeting:

CADEIRYDD / CHAIR:	R Llewellyn
DIRPRWY GADEIRYDD / DEPUTY CHAIR:	G Thomas
AELODAU / MEMBERS:	Cyng./Cllrs:, K W Curry, W E Evans, G Jones, L Frayling, T Hennegan, P James, S Paddison, P Pritchard, G Walker, A Wilcox, D E Williams, J Dudley, T Wilcox, A Lewis, C Lloyd, J Williams, R Rees-Evans, C Higgins, R James, K Pearson
YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:	Cyng./Cllrs:, D Cole, W D Thomas, J Curtice
YN BRESENNOL / IN ATTENDANCE:	D Daycock, S Flather, K Jones, M Miles, S Rees, L Howell

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr W D Thomas, D Cole a J Curtice

2 DATGANIAD GAN AELODAU O UNRHYW FUDDIANNAU PERSONOL NEU SY'N RHAGFARNU

Fe wnaeth pob un o'r Aelodau a oedd yn bresennol ddatgan bod ganddynt fuddiant personol yn unrhyw fusnes sy'n ymwneud â, neu sy'n effeithio ar eu Hawdurdod Cyfansoddol nhw.

3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD / MATERION PERSONOL

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod y Cynghorydd D Thomas yn absennol o'i ddyletswyddau fel Cynghorydd tra ei fod yn gwella o haint ar y frest, a bod disgwyl iddo ddychwelyd ar ddechrau mis Mehefin.

Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu'r Cynghorydd C Lloyd yn ôl i'r cyfarfod yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar.

Fe wnaeth y Cynghorydd groesawu Mr Lee Howell, Ymgynghorydd Gwasanaethau Tân i Lywodraeth Cymru, i'r cyfarfod, ac esboniodd wrth yr Aelodau fod Mr Howell ar gael i gynorthwyo gyda'r broses ddethol, trwy gynnig cyngor priodol ar lefel strategol ac arbenigedd technegol i Aelodau'r Awdurdod.

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth yr Aelodau am natur sensitif yr eitemau eithriedig, am bwysigrwydd cyfrinachedd a'r canlyniadau posib pe byddai'r wybodaeth yn cael ei ddatgelu heb awdurdod, yn cynnwys y risg y gallai'r Aelodau dorri'r Côd Ymddygiad.

4. CYTUNWYD, YN UNOL AG ADRAN 100A (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, I EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD O'R CYFARFOD OHERWYDD, PE BYDDENT YN BRESENNOL, MAE'N DEBYGOL BYDDAI GWYBODAETH EITHRIEDIG YN CAEL EI DDATGELU ODDI FEWN I DDISGRIFIAD RHAN 12A O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, SEF;

PARAGRAFF 12, GWYBODAETH YN YMWNEUD AG UNIGOLYN PENODOL

PARAGRAFF 14, GWYBODAETH YN YMWNEUD Â MATERION ARIANNOL NEU FUSNES UNRHYW BERSON PENODOL (YN CYNNWYS YR AWDURDOD SYDD YM MEDDIANT YR WYBODAETH HYNNY), A'I FOD ER LLES Y CYHOEDD I WNEUD HYNNY.

5 I DDERBYN ADRODDIAD AR BENODI PRIF SWYDDOG TÂN / PENNAETH Y GWASANAETH CYFLOGEDIG

Cyflwynodd y Pennaeth Corfforaethol Datblygu Pobl a'r Gyfundrefn adroddiad ar y broses benodi ar gyfer swydd y Prif Swyddog Tân / Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig i'r Aelodau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yna dri chais i'w hystyried mewn cyfweliad, wedi i'r Panel Rhestr Fer, a gynhaliwyd ar y 23ain o Ebrill 2014, gytuno i osod y tri ar y rhestr fer, ac roedd ffurflenni cais y tri ymgeisydd i'w gweld yn Atodiadau 1, 2 a 3.

Esboniodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth yr Aelodau yr hyn a ddisgwylir ohonynt o ran eu hymagwedd at y broses gyfweld, a rhoddodd wybod iddynt am y weithdrefn a'r amseriadau i'w dilyn.

Esboniodd y Clerc / Swyddog Monitro ymhellach wrth yr Aelodau am brif agweddau'r broses gyfweld a'r hyn a ddisgwylir.

Yn dilyn y cyflwyniadau unigol a chyfweliadau'r tri ymgeisydd, cynhaliodd yr Aelodau bleidlais gudd. Casglwyd a chyfrifwyd y pleidleisiau gan y Clerc / Swyddog Monitro, ac yna cawsant eu gwirio gan y Pennaeth Cyllid.

Fe wnaeth y Cadeirydd ddatgan wrth yr Aelodau fod enillydd pendant i'r bleidlais, a chyhoeddodd mai'r Prif Swyddog Tân / Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig newydd oedd Mr Chris Davies.

PENDERFYNWYD:-

Penodi Mr Chris Davies yn Brif Swyddog Tân / Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ar Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

6 I YSTYRIED UNRHYW EITEMAU ARALL O FUSNES Y MAE'R CADEIRYDD, OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, YN PENDERFYNU Y DYLID EU HYSTYRIED FEL MATER O FRYS YN UNOL AG ADRAN 100(B)(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Doedd dim eitemau o fusnes brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:05.